# *Gravity* (Cuaron, UDA / Y DU, 2013)
## Arddangos a sinemâu 'canolfannau celfyddyd' (arbenigol)

## Gweithgaredd wrth gyrraedd (Adnodd Digidol 6a)

**Beth yw eich dealltwriaeth chi o 'sinemâu canolfannau celfyddyd'? Ydych chi'n gwybod pa fathau o ffilmiau maen nhw'n eu dangos**

## Tasg 1

Mewn grwpiau bach, gwnewch waith ymchwil ar-lein i un sinema canolfan celfyddyd/ arbenigol. Lluniwch gyflwyniad (PowerPoint neu Prezi) yn seiliedig ar eich canfyddiadau.

Dyma'r meysydd y dylech chi ganolbwyntio arnyn nhw:

- Rhestru'r prif ffilmiau mae'n eu dangos.
- Pa bethau eraill mae'r sinema yn eu gwneud – digwyddiadau cymunedol, addysg, canolfan celfyddydau?
- Pa mor dda yw cyfleusterau eraill y sinema, er enghraifft bwyd a diod?
- Ble yn y ddinas mae'r sinema?
- Sut mae'n edrych – y tu mewn a'r tu allan?
- Ers pa bryd mae wedi bod ar agor?
- Pwy sy'n ei hariannu?

Ceisiwch ddefnyddio graffigwaith, delweddau, logos, rhaghysbysebion i wneud eich cyflwyniad ymddangos mor ddiddorol â phosibl.

Dylai pob grŵp ddewis **un** sinema o blith y canlynol i ymchwilio iddi:

**Ritzy Cinema Brixton, Llundain**
http://www.picturehouses.co.uk/

**Chapter, Caerdydd**
http://www.chapter.org/

**Phoenix, Caerlŷr**
http://phoenix.org.uk/

**Cornerhouse, Manceinion**
http://www.cornerhouse.org/

**Showroom Workstation, Sheffield**
http://www.showroomworkstation.org.uk/

**Tyneside Cinema, Newcastle**
https://www.tynesidecinema.co.uk/

## Tasg 2

**Ar ôl y cyflwyniadau, trafodwch y cwestiynau canlynol yn eich grwpiau:**

- **Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y sinemâu 'canolfannau celfyddyd' hyn?**
- **Yn eich barn chi, pa fathau o gynulleidfaoedd mae'r sinemâu hyn yn eu denu?**
- **Ydyn nhw'n dangos pob math o ffilmiau Hollywood, neu fath penodol o ffilm Hollywood yn unig? Pam rydych chi'n credu mae'r sinemâu hyn yn dueddol o ddangos ffilmiau Hollywood prif ffrwd yn ogystal â ffilmiau mwy annibynnol?**
- **Ydych chi'n credu y dylai'r sinemâu hyn ganolbwyntio ar ddangos ffilmiau y tu allan i Hollywood er mwyn i gynulleidfaoedd allu gweld ystod fwy amrywiol o ffilmiau?**

## Tasg 3 (Adnodd digidol 6b)

**Edrychwch ar y tabl hwn sy'n seiliedig ar erthygl o *Sight and Sound* mis Chwefror 2014 gan Charles Gant. Roedd yn siarad am beth roedd yn ei alw'n 'ffilmiau arbenigol Saesneg eu hiaith'. Mae'r rhain yn ffilmiau a gafodd eu dangos mewn sinemâu arbenigol (canolfannau celfyddyd), er eu bod yn ffilmiau prif ffrwd, yn aml gyda sêr enwog yn ymddangos ynddyn nhw. Yn sgil eich gwaith ymchwil i sinemâu canolfannau celfyddyd arbenigol, efallai y byddwch chi wedi gweld bod y mathau hyn o ffilm yn aml yn cael lle blaenllaw ar yr amserlen, er bod pob amserlen yn cynnwys ffilmiau annibynnol hefyd.**

**Amlinellwch y rhesymau pam mae rhaglenwyr sinemâu canolfannau celfyddyd, arbenigol, yn dangos y ffilmiau hyn. (Mae'r ffigurau a roddir yn dangos y refeniw gan sinemâu aml-sgrin/prif ffrwd, yn ogystal â sinemâu arbenigol/canolfannau celfyddyd.) Efallai y bydd angen i chi chwilio am wybodaeth am unrhyw ffilm sy'n anghyfarwydd i chi.**

**Ffilmiau Arbenigol Saesneg eu Hiaith yn Swyddfa Docynnau’r DU/Iwerddon 2013**

| **Ffilm** | **Refeniw (hyd at Chwefror 2014)** |
|---|---|
| ***Life of Pi*** | £29,928,205 |
| ***Gravity*** | £25,763,353 |
| ***Captain Phillips*** | £15,805,169 |
| ***The Great Gatsby*** | £15,737,351 |
| ***Django Unchained*** | £15,736,884 |
| ***Philomena*** | £10,470,225 |
| ***Lincoln*** | £8,757,912 |
| ***Quartet*** | £7,303,670 |
| ***Blue Jasmine*** | £5,120,999 |

## Tasg 4

Mewn grwpiau, trafodwch i ba raddau mae cynulleidfaoedd ffilm yn gwylio’r ffilmiau maen nhw am eu gwylio, neu’r ffilmiau mae’r diwydiant am iddyn nhw eu gwylio.